STRATEGAETH ADEILADU CYNALIADWY 2006
CRYNODEB

Drafft Ionawr 2006

First published January 2006. Department of Trade and Industry.
www.dti.gov.uk © Crown Copyright. URN 06/ 06/730W

Nod yr adolygiad hwn i Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2000 yw ystyried beth a gyflawnwyd yn y pum mlynedd diwethaf a rhoi fframwaith effeithiol i lywio polisïau'r Llywodraeth yn y dyfodol lle mae'r rheini'n berthnasol i adeiladu. Mae'n dangos i ba gyfeiriad y mae'r llywodraeth yn awyddus i'r diwydiant ddatblygu yn y dyfodol ac mae hefyd yn dangos pa bethau ddylai gael y sylw pennaf ym marn busnesau. Gobeithir hefyd y bydd y strategaeth yn annog y diwydiant i awgrymu atebion cadarnhaol i rai o'r cwestiynau pwysig y mae'n eu hwynebu.

Mae'r strategaeth yn cofleidio'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy hynny y mae'r Llywodraeth gyfan wedi ymrwymo i'w cefnogi. Mae hynny'n golygu integreiddio a chadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol unrhyw bolisi neu benderfyniad. Yn achos Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig anelir at y nod hwnnw mewn ffordd integredig drwy economi gynaliadwy, arloesol a chynhyrchiol sy'n sicrhau lefelau uchel o gyflogaeth; a chymdeithas gyfiawn sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cymunedau cynaliadwy a lles personol. Caiff hyn ei wneud mewn dulliau sy'n diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd ffisegol a naturiol, ac sy'n defnyddio adnoddau ac ynni mor effeithlon â phosibl. Rhaid i'r Llywodraeth hyrwyddo dealltwriaeth glir o ddatblygu cynaliadwy ac ymrwymiad iddo, fel y gall pawb gyfrannu at y nod cyffredinol drwy eu penderfyniadau unigol.

Cafodd Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU ei chyhoeddi gan y Llywodraeth ym mis Mawrth 2005, (http://www.sustainable-development.gov.uk/publications/uk-strategy/uk-strategy-2005.htm), ac roedd ynddi agenda i sicrhau gwell safon byw drwy ddefnyddio atebion hirdymor a fydd yn llesol i bawb.



Ffigur 1 - Y pum egwyddor sy'n llywio datblygu cynaliadwy

Byw o Fewn Terfynau Amgylcheddol [Living Within…]
Parchu terfynau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned - i wella ein hamgylchedd a sicrhau nad amherir ar yr adnoddau naturiol sydd eu hangen i gynnal bywyd ac y byddant yn aros felly ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sicrhau Cymdeithas Gryf, Iach a Chyfiawn [Ensuring a Strong,..]
Diwallu gwahanol anghenion pawb mewn cymunedau sy'n bodoli eisoes a chymunedau'r dyfodol, hyrwyddo lles personol, cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.

Sicrhau Economi Gynaliadwy [Achieving a…]
Adeiladu economi gref, sefydlog a chynaliadwy sy'n sicrhau ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle y telir costau amgylcheddol a chymdeithasol gan y rhai sy'n gyfrifol amdanynt (y llygrydd sy'n talu), a symbylir defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Hyrwyddo Llywodraethu Da [Promoting Good..]
Mynd ati i hyrwyddo systemau llywodraethu effeithiol, cyfranogol ym mhob rhan o gymdeithas – ysgogi creadigrwydd, egni, ac amrywiaeth pobl.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol [Using Sound…]
Sicrhau y caiff polisi ei ddatblygu a'i weithredu yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gref, wrth gymryd i ystyriaeth ansicrwydd gwyddonol (drwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd y cyhoedd.

Clustnododd y strategaeth bedair blaenoriaeth sy'n gyffredin ledled y DU ac sy'n adleisio'n gryf yn yr agenda adeiladu cynaliadwy. Y blaenoriaethau yw: Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy; Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni; Diogelu Adnoddau Naturiol a Gwella'r Amgylchedd; Cymunedau Cynaliadwy. Datblygwyd y strategaeth adeiladu cynaliadwy hon ar sail y blaenoriaethau hyn.

Cynnydd ers 2000

Yn y flwyddyn 2000, cyhoeddodd y Llywodraeth ei strategaeth ar gyfer adeiladu cynaliadwy. Roedd y ddogfen honno "Building A Better Quality of Life" yn dangos y ffordd ymlaen ar gyfer y llywodraeth a'r diwydiant. Mae llawer wedi'i gyflawni ers hynny, gan gynnwys:

- Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd
- Yr Ardoll Agregau a'r Dreth Tirlenwi
- Ffurfio'r Cynghorau Sgiliau Sector: Sgiliau Adeiladu, Sgiliau Ased ac Uwch Sgiliau
- Iechyd a Diogelwch:
  Y cyfraddau damweiniau mawr angheuol ac anafiadau dros 3 diwrnod yn 2003/04 oedd yr isaf erioed ers dechrau cadw cofnodion
- Lansio Parch At Bobl – Cod Arferion Iechyd a Diogelwch Da yn y Gwaith – hyd yma mae 350 o sefydliadau wedi llofnodi.
- Ffurfio Arbenigrwydd Adeiladu

- Y Papur Gwyn ar Ynni 2003
- Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni 2004
- Adolygu Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu
- Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy
- Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safleoedd 2004
- Datblygiadau Polisïau Cynllunio
- Deddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel
- Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu

Mae mwy o fanylion am y llwyddiannau hyn a mentrau eraill ym mhrif gorff yr adolygiad.

Y Dyfodol

Mae'r Fforwm Cynaliadwyedd wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r weledigaeth hon yn amlygu materion allweddol ar draws y sbectrwm o gynaliadwyedd ac yn herio'r Llywodraeth a'r diwydiant gydag amcanion penodol. Rhestrir y rheini isod, ynghyd â thargedau perthnasol y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i osgoi cyflwyno rhagor o reoliadau drwy ddefnyddio dulliau gwirfoddol lle bo hynny'n bosibl.

.

Tabl: Targedau a Gweledigaethau ar gyfer Adeiladu Cynaliadwy hyd at 2015 a thu hwnt

Mater	Gweled-igaeth y Diwydiant	Metrig	Targedau'r Llywodraeth	Gweledigaeth y Diwydiant o'r dyddiad cynnydd interim	Dyddiad cyflawni terfynol	Prif gyfrifoldeb	Mecanwaith	Cyfrifoldeb Eilaidd
Newid yn yr hinsawdd / Ynni	Dim gollyngiadau CO_2 (mewn m^2/y fl)	Gollyngiadau CO_2 m^2/y fl, wedi'u rhagfynegi a'u mesur.	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod ar CSH lefel 3 o fis Ebrill 06 ymlaen. Gollyngiadau CO_2 20% yn is na lefelau 1990 erbyn 2010. 165mt oedd lefel 1990, felly y targed yw 132mt.	20% o adeiladau newydd erbyn 2010; Y rhai presennol erbyn 2015	100% o'r adeiladau newydd erbyn 2020: Y rhai presennol erbyn 2030	ODPM (tai a ariennir yn gyhoeddus); Defra (newid cyffredinol yn yr hinsawdd); cynllunwyr; dylunwyr	Rheoliadau adeiladu; cynllunio; trethiant; cymhellion; gorfodaeth; CSR; ymwybyddiaeth	Datblygwyr; cleientiaid; dylunwyr; contractwyr
Gwastraff	Dim gwastraff	Tunelli i safleoedd tirlenwi. Dangosydd fframwaith UKSD (pob diwydiant) 1998/99 100,170mt i safleoedd tirlenwi, 2002/03 96,302mt i safleoedd tirlenwi.	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod ar CSH lefel 3 o fis Ebrill 06 ymlaen. Cyfanswm y gwastraff ar gyfer 2001 oedd 93. 91mt ac o hwnnw mae 40mt yn cael ei ailgylchu ar hyn o bryd; y targed yw mwy o ailgylchu hyd at 100% mewn hinsawdd economaidd hyfyw.	2006; adolygiad blynyddol	2020	Y Llywodraeth; datblygwyr; cleientiaid: gweithgynhyrchwyr	Deddfwriaeth; rheoliadau; gorfodaeth; protocol dymchwel; trethiant; cymhellion; CSR; ymwybyddiaeth	Awdurdodau lleol; dylunwyr; contractwyr
Deunyddiau	Defnyddio deunyddiau cynaliadwy / llai o ddefnyddio deunyddiau. Defnyddio deunyddiau wedi'u hadennill.	Deunyddiau graddfa 'A' a ddefnyddiwyd / % o ostyngiad / datganiad LCA ar gyfer cynnyrch.	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod ar CSH lefel 3 o fis Ebrill 06 ymlaen.	50% o ostyngiad erbyn 2015; adolygiad blynyddol. Ar hyn o bryd mae 13mt o'r deunyddiau adeiladu a gludir i safleoedd bob blwyddyn heb eu defnyddio.	90% erbyn 2025	ODPM; gweithgynhyrchwyr; datblygwyr; contractwyr	Rheoliadau; codau; canllawiau gwyrdd; monitro'r gadwyn gyflenwi	Awdurdodau lleol; cynllunwyr; cwmnïau; manylwyr
Costau	Newid i brisio asedau (cyhoeddus) am oes gyfan	% y defnyddio (adeiladau newydd yn cael eu dewis ar sail WLC); Mynegai Chwyddiant Adeiladu	Mae'r Trysorlys eisoes yn diffinio gwerth am arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan ac ansawdd i fodloni anghenion y defnyddiwr.	2010	2020	OGC; sefydliadau dinesig ac arianwyr; cleientiaid	Newid mewn polisi - paradigm cyllid cyhoeddus newydd/ gwirfoddol (mecanweithiau'r farchnad)	Cynigwyr PFI; dylunwyr
Dwr	Llai o ddefnydd (yn enwedig d_r yfed)	Litrau/y person/ y dydd 1992 – 140 l y/d 2003 – 154 l y/d	Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod ar CSH lefel 3 o fis Ebrill 06 ymlaen. 06	Gostyngiad o 30% erbyn 2010	50% erbyn 2015	ODPM; OFWAT; awdurdodau lleol; cynllunwyr	Rheoliadau adeiladu; cynllunio; gorfodaeth; anfonebu a defnyddio mesuryddion; masnachu d_r; ymwybyddiaeth	Datblygwyr; cwmnïau; galw cyhoeddus
Ansawdd; estheteg	Safonau ansawdd ac estheteg c.f. Sweden/ adeiladau hygyrch i'r cyhoedd	CABE-adeiladau sy'n esiampl i eraill/ DQI	I'w gadarnhau. Mae DCMS ar fin adfywio rôl Hyrwyddwr Dylunio y Gweinidogion oedd yn hyrwyddo dylunio o ansawdd ym mhob rhan o'r	Targed y Fforwm Strategol ar gyfer Adeiladu: Erbyn diwedd 2007, dylai 60% o'r holl brosiectau a ariennir yn	2008/ 2010	ODPM; CABE; sefydliadau proffesiynol; BRE	Mesur yn erbyn esiamplau; mwy o ddeddfwriaeth	Sefydliadau ariannol; datblygwyr; y diwydiant adeiladu

			Llywodraeth. Tai a ariennir yn gyhoeddus i fod ar CSH lefel 3 o fis Ebrill 06 ymlaen.	gyhoeddus/PFI (£1m+) ddefnyddio DQIs ac 20% o'r prosiectau >£1m o ran gwerth				
Sgiliau	Dim prinder sgiliau (crefftwyr a galwedigaethau, y gweithlu presennol a'r hyfforddeion)	Meithrin gallu; diffyg yn nifer y gweithlu crefftus; % a hyfforddir yn flynyddol; mesur ansawdd bywyd Nifer y swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau ym maes adeiladu, 2004 = 13,650. % o'r rheini sy'n ymwneud â phrinder sgiliau yn 2004 = 43%. (Ffynhonnell KPIs Parch at Bobl 2005).	Datblygu Cynghorau Sgiliau Sector sy'n cael eu gwerthfawrogi, eu targedu'n briodol ac sydd â strategaethau hyfyw sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol, ac sy'n cyfrannu at well perfformiad busnes yn y diwydiant.	25% o'r gweithlu presennol wedi cael hyfforddiant; a 100% o'r hyfforddeion newydd.	Adolygiad blynyddol	Y Llywodraeth; CITB- Sgiliau Adeiladu; sefydliadau proffesiynol	Consgripsiwn; cyrsiau gorfodol; CSR; ymwybyddiaeth	Sefydliadau hyfforddi; cleientiaid; dylunwyr; contractwyr; CPD
Diogelwch	Dim RIDOR (damweiniau a gofnodwyd)	Graddfa Amlder y Damweiniau	Yn natganiad y strategaeth Revitalising Health and Safety, (Mehefin 2000), pennwyd targedau cenedlaethol ar gyfer gwella iechyd a diogelwch erbyn 2010: • gostwng 10% ar nifer yr achosion o farwolaethau ac anafiadau mawr; • gostwng 20% ar nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith; • gostwng 30% ar gyfer y diwrnodau gwaith a gollir am bob gweithiwr o anafiadau a salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith; a chyflawni hanner y gwelliant dan bob targed erbyn 2004.	2006; adolygiad blynyddol	2020	Cleientiaid; HSE	Gweithredu prosesau; hyfforddiant Mecanweithiau ffurfiol; Codau a safonau Mecanweithiau anffurfiol: Canllawiau arfer gorau	Dylunwyr; contractwyr
Tegwch / Parch at Bobl	Ymrwymiad i fasnach deg a Pharch at Bobl	Nifer yr ymrwymiadau; asesiad DQI. Ar hyn o bryd mae 15% o weithwyr	Parch at Bobl yn cael ei fabwysiadu gan y diwydiant fel gwerth busnes craidd.	--	2010	Arweiniad gan y Llywodraeth; CABE; Iechyd a Diogelwch	Prosesau cyfranogol: DQI	ODPM; cynllunwyr; pwysau gan gymheiriaid

		uniongyrchol y diwydiant adeiladu wedi cael statws Buddsoddwyr mewn Pobl (Ffynhonnell KPIs Parch at Bobl 2005).						

Rhywbeth sy'n werth ei nodi, yn enwedig ar ôl y cais llwyddiannus, yw Gêmau Olympaidd 2012 a fydd yn rhoi Llundain a'r DU ar lwyfan y byd. Mae adeiladu seilwaith a chyfleusterau'r Gêmau a sicrhau etifeddiaeth hirdymor, yn gyfle unigryw i godi proffil a chryfhau'r achos dros ddatblygu cynaliadwy yn y diwydiant adeiladu yn y DU a ledled y byd. Yn ogystal â'r gwelliannau amgylcheddol, ffisegol ac economaidd fydd yn cael eu hetifeddu gan y Lower Lee Valley, bydd y Gêmau hefyd yn gyfle cyffrous i wella bywydau pobl ledled y DU. Dylai'r diwydiant gofleidio'r cyfleoedd a gynigir gan raglen datblygu'r Gêmau i arddangos rhagoriaeth mewn adeiladu ac i sicrhau bod arferion gorau mewn datblygu cynaliadwy yn cael eu deall yn well ac yn cael eu mabwysiadu ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae'r targedau hyn yn fframwaith effeithiol – un a fydd yn llywio'r sector tuag at wneud gwell defnydd o Adeiladu Cynaliadwy.